**Datganiad o Reswm**

**Cyflwyno cyfyngiadau parcio 'gwahardd aros, llwytho a dadlwytho ar unrhyw adeg' ar Heol Parc Tondu, Clos y Cawell, Heol y Glowyr, y Ffordd Fynediad Ddienw a Rhodfa Parc Slip, Tondu, Pen-y-bont ar Ogwr.**

Yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd gan y Cyngor ar gyfer Datblygiad Parc Tondu, cynigir cyflwyno cyfyngiadau parcio newydd ar Heol Parc Tondu, Clos y Cawell, Heol y Glowyr, y Ffordd Fynediad Ddienw a Rhodfa Parc Slip, Tondu, Pen-y-bont ar Ogwr. Dangosir yn Lluniad rhif SF.01.24.

Er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd a chael gwared ar barcio rhwystrol yng nghyffiniau'r datblygiad, ystyrir ei bod yn briodol gweithredu'r cyfyngiadau arfaethedig at y dibenion a gynhwysir yn Adran 1 (a), (c) ac (f) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel a ganlyn:

(a) osgoi perygl i bobl neu draffig arall sy'n defnyddio'r ffordd neu unrhyw ffordd neu atal tebygolrwydd y bydd unrhyw berygl o'r fath yn codi, neu

(c) hwyluso teithio ar y ffordd neu unrhyw ffordd i unrhyw ddosbarthiad o draffig (gan gynnwys cerddwyr), neu

(f) cynnal neu wella amwynderau'r ardal y mae'r ffordd yn rhedeg trwyddi

Wrth benderfynu a ddylid gwneud Gorchymyn i gyflwyno cyfyngiadau parcio 'Dim Aros neu Lwytho/Dadlwytho ar Unrhyw Adeg', mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried y materion a nodir yn adran 122 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae'n ofynnol yn ôl Adran 122(1) bod y Cyngor yn ymarfer y swyddogaethau a roddwyd iddo gan Ddeddf 1984 (cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol gan ystyried y materion a nodir yn adran 122(2)) i sicrhau symud traffig cerbydau a thraffig arall (gan gynnwys cerddwyr) yn gyflym, yn gyfleus ac yn ddiogel, a darparu cyfleusterau parcio addas a digonol ar y briffordd ac oddi arni.

Y materion y mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw iddynt yn a122 (2) yw:

1. Dymunoldeb sicrhau a chynnal mynediad rhesymol i safleoedd;

2. Yr effaith ar amwynderau unrhyw ardal yr effeithir arni a phwysigrwydd rheoleiddio a chyfyngu ar ddefnydd cerbydau masnachol trwm o ffyrdd er mwyn cadw neu wella amwynderau'r ardaloedd y mae'r ffordd yn mynd trwyddynt;

3. Y strategaeth ansawdd aer a baratowyd dan adran 80 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1995;

4. Pwysigrwydd hwyluso teithio i gerbydau gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau diogelwch a chyfleustra'r rhai sy'n defnyddio neu'n dymuno defnyddio cerbydau o'r fath;

5. Unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol ym marn y Cyngor.

Ar ôl ystyried dyletswydd A122, ystyrir ei bod yn briodol cyflwyno cyfyngiadau parcio 'Dim aros neu ddadlwytho/llwytho ar unrhyw adeg'.

Mae'r cynllun yn cael ei ariannu gan y datblygwr.